- Manylion cyswllt personol fel enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol.
- Dyddiad geni.
- Statws rhywedd neu ailbennu rhywedd.
- Statws priodasol a dibynyddion.
- Perthynas agosaf a gwybodaeth ar gyfer cysylltu mewn argyfwng.
- Rhif Yswiriant Gwladol.
- Manylion cyfrif banc, cofnodion cyflogres a gwybodaeth am statws treth.
- Gwybodaeth am gyflog, gwyliau blynyddol, pensiwn a buddion.
- Dyddiad dechrau.
- Lleoliad eich gwaith neu'ch gweithle.
- Copi o'ch trwydded yrru.
- Gwybodaeth recriwtio (gan gynnwys copiâu o ddogfennau hawl i weithio, geiradaon a gwybodaeth arall a gafodd ei chynnwys mewn CV neu lythyr esboniadol neu fel rhan o'r broses ymgeisio).
- Cofnodion cyflogaeth (gan gynnwys teitlau swyddi, hanes cyflogaeth, oriau gwaith, cofnodion hyfforddiant ac aelodaeth broffesiynol).
- Hanes cyflog (*compensation history*)
- Gwybodaeth am berfformiad.
- Gwybodaeth am faterion cwyno a disgyblu.
- Ffilmiau teledu cylch cyfyng a gwybodaeth arall a geir drwy ddulliau electronig fel cofnodion cardiau sweipio.
- Gwybodaeth mae ei hangen arnom er mwyn i chi allu defnyddio a mynd ar systemau'r BBC a gwasanaethau TG eraill.
- Gwybodaeth am eich defnydd chi o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu.

- Ffotograffau.

Cawn hefyd gasglu, storio a defnyddio'r "categoriâu arbennig" canlynol o wybodaeth bersonol mwy sensitif:

- Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a barn wleidyddol.
- Aelodaeth o undeb llafur.
- Gwybodaeth am eich iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd a salwch, ac adroddiadau a dogfennau cyfeirio at yr adran Iechyd Galwedigaethol.
- Gwybodaeth enetig a data biometrig.
- Gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddu.

## SUT MAE EICH GWYBODAETH BERSONOL YN CAEL EI CHASGLU?

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch drwy'r broses contractio / recriwtio ac ymgeisio, naill ai'n uniongyrchol gan ymgeiswyr neu weithiau gan asiantaeth gyflogi neu ddarparwr archwiliadau cefndir. Weithiau fe fyddwn yn casglu rhagor o wybodaeth oddi wrth drydydd partïon gan gynnwys cyn gyflogwyr neu endidau sydd wedi sicrhau eich gwasanaethau, asiantaethau gwirio credyd neu asiantaethau archwilio cefndir eraill (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu ei olynnydd a/neu gwmni cyfatebol perthnasol) ac unrhyw awdurdod rheoleiddio perthnasol).

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol yn ystod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swydd gydol y cyfnod y byddwch yn gweithio i ni.

## SUT BYDDWN YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Dim ond pan mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol chi. Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

6. Lle mae angen i ni gyflawni'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
7. Lle mae angen i ni gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol (pa un ai a yw hynny o dan y contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi neu fel arall).
8. Lle mae hynny'n ofynnol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon ni (neu rai trydydd parti) a phan nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech na'r buddiannau hynny.

Efallai hefyd y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn y sefyllfaoedd canlynol, sy'n debygol o fod yn anaml iawn:

9. Lle mae angen i ni ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall).
10. Lle mae ei hangen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol.

## Y sefyllfaoedd lle byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol chi

Mae angen yr holl gategoriâu gwybodaeth yn y rhestr uchod arnom (gweler *Y math o wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch chi*) yn bennaf ei mwyn i ni allu cyflawni ein contract gyda chi ac i'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol chi i fynd ar ôl ein buddiannau cyfreithlon ni ein hunain neu rai trydydd partïon, ar yr amod nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech

na'r buddiannau hynny. Mae'r sefyllfaoedd lle byddwn yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol yn cynnwys y rhai a restrir isod (ond heb eu cyfyngu i'r rhain).

- Gwneud penderfyniad am y broses o'ch recriwtio neu eich penodi.
- Pennu'r telerau ar gyfer gweithio i ni.
- Gwirio bod gennych hawl dan y gyfraith i weithio yn y DU.
- Yn talu i chi ac, os ydych chi'n gyflogai neu i rai o'n gweithwyr hunangyflogedig, tynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Darparu'r buddion i chi sydd wedi'u nodi yn y contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi neu wedi cytuno iddo gyda chi.
- Cysylltu â'ch darparwr pensiwn.
- Gweinyddu'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
- Rheoli a chynllunio busnes, gan gynnwys cyfrifyddu ac archwilio.
- Cynnal adolygiadau perfformiad, rheoli perfformiad a phennu gofynion perfformiad.
- Gwneud penderfyniadau am adolygiadau cyflog ac iawndal.
- Asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu rôl benodol, gan gynnwys penderfyniadau am ddyrchafiadau.
- Casglu tystiolaeth ar gyfer gwrandawiaid cwyno neu ddisgyblu posibl (os ydych chi'n gyflogai).
- Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â pharhad eich cyflogaeth neu waith.
- Gwneud trefniadau ar gyfer terfynu ein perthynas waith.
- Gofynion addysg, hyfforddi a datblygu.
- Delio ag anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â chi, neu gyflogeion, unigolion hunangyflogedig, gweithwyr a chontractwyr eraill, gan gynnwys damweiniau yn y gwaith.
- Penderfynu ar eich ffitrwydd i weithio.
- Rheoli absenoldeb oherwydd salwch.
- Cydymffurfio â dyletswyddau iechyd a diogelwch.
- Atal twyll.
- Monitro eich defnydd chi o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'n polisiau TG.
- Sicrhau diogelwch gwybodaeth a rhwydweithiau, gan gynnwys atal mynediad heb ei awdurdodi i'n cyfrifiaduron a'n systemau cyfathrebu electronig ac atal meddalwedd faleisus rhag cael ei dosbarthu.
- Cynnal astudiaethau dadansoddi data i adolygu cyfraddau cadw a gadael-cyn-gorffen staff, a'u deall yn well.
- Monitro cyfle cyfartal.
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau adrodd statudol neu reoleiddiol o ran tâl ac eraill.
- Rhoi mynediad i chi at systemau'r BBC a'ch galluogi chi i ddefnyddio ein gwasanaethau TG, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti.
- Gweinyddu gwasanaethau eraill ar eich rhan fel prosesu treuliau, archebu teithiau neu lety a threfniadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Edrychwch ar adran "Rhannu Data" yr hysbysiad preifatrwydd i gael rhagor o

wybodaeth am y ffordd rydym yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon.

## Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth bersonol

Oni fyddwch yn darparu gwybodaeth benodol pan gewch gais i wneud hynny, efallai na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi (fel talu i chi neu ddarparu budd), neu efallai na fyddwn yn gallu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol (fel sicrhau iechyd a diogelwch ein gweithwyr).

## Newid diben

Dim ond at y dibenion y gwnaethom gasglu'ch gwybodaeth bersonol ar eu cyfer y byddwn yn ei defnyddio, onid ydym yn rhesymol gredu bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig â'r diben gwreiddiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn hefyd yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi ni i wneud hynny oni bai fod sail gyfreithiol arall y gallwn ei defnyddio i brosesu'r data dan sylw.

Sylwch y gallwn brosesu'ch gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi neu heb eich caniatâd, gan gydymffurfio â'r rheolau uchod, os yw hynny'n ofynnol dan y gyfraith neu'n cael ei ganiatáu dan y gyfraith.

## SUT RYDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH BERSONOL SENSITIF IAWN

Mae "categoriâu arbennig" o ddata personol sensitif iawn yn gofyn am lefelau uwch o ddiogelwch. Mae angen rhagor o gyfiawnhad arnom ar gyfer gallu casglu, storio a defnyddio'r math yma o wybodaeth bersonol. Efallai y byddwn yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi.
2. Pan fydd angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn unol â'n Llawlyfr Diogelu Data.
3. Pan fydd ei hangen er budd y cyhoedd, fel ar gyfer monitro cyfle cyfartal, neu mewn perthynas â'n cynllun pensiwn galwedigaethol neu unrhyw gynllun pensiwn arall, ac yn unol â'n Llawlyfr Diogelu Data.
4. Pan fydd ei hangen i asesu eich gallu i weithio ar sail iechyd, yn amodol ar fesurau diogelu cyfrinachedd priodol.

Yn llai cyffredin, efallai y byddwn yn prosesu'r math yma o wybodaeth lle bydd ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu lle bydd ei hangen i ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) a chithau ddim yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

## Ein dyletswyddau fel cyflogwr

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol sensitif iawn yn y ffyrdd canlynol:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfnodau o absenoldeb a all gynnwys absenoldeb oherwydd salwch neu sy'n gysylltiedig â'r teulu, i gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a chyfreithiau eraill.

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu'ch iechyd meddwl, neu statws anabledd, i sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch yn y gweithle. Byddwn hefyd yn ei defnyddio i asesu eich ffitrwydd i weithio, i ddarparu addasiadau priodol yn y gweithle, i fonitro a rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac i weinyddu budd-daliadau.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu darddiad cenedlaethol neu ethnig, eich credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu eich bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, i sicrhau bod y broses monitro a chofnodi cyfle cyfartal yn ystyrion.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am aelodaeth o undeb llafur i dalu premiymau undebau llafur, i gofrestru statws cyflogai gwarchoddedig ac i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.



## A oes angen eich caniatâd chi arnom?

Nid oes angen eich caniatâd chi arnom os byddwn yn defnyddio categorïau arbennig o'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi ysgrifenedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu i arfer hawliau penodol ym maes cyfraith cyflogaeth. Mewn amgylchiadau prin, efallai y byddwn yn cysylltu â chi er mwyn cael eich caniatâd ysgrifenedig i adael i ni brosesu data penodol sy'n sensitif iawn. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi manylion llawn yr wybodaeth yr hoffem ei chael a'r rheswm pam mae ei hangen arnom, er mwyn i chi allu ystyried yn ofalus a ydych am roi caniatâd. Dylech wybod nad yw'n amod yn eich contract â ni eich bod yn cytuno i unrhyw gais am ganiatâd gennym ni.

## GWYBODAETH AM EUOGFARNAU TROSEDDOL

Dim ond pan mae'r gyfraith yn gadael i ni wneud hynny y gallwn ddefnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol. Fel arfer, bydd hyn yn berthnasol pan mae'r prosesu'n ofynnol i gyflawni ein dyletswyddau a gyhyd â'n bod yn gwneud hynny yn unol â'r [Llawlyfr Diogelu Data](#) sydd ar gael drwy Gateway.

Yn llai cyffredin, efallai y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag euogfarnau troseddol os bydd ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, os bydd ei hangen i ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) a chithau ddim yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn dal gwybodaeth am euogfarnau troseddol.

Byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol dim ond os yw hynny'n briodol gan gofio natur y rôl a lle y gallwn wneud hynny'n gyfreithiol. Lle bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu efallai y byddwch chi yn rhoi'r wybodaeth honno i ni yn uniongyrchol pan fyddwch yn gweithio i ni. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau yn y ffordd canlynol:

- Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (lle bo'n berthnasol).
- I weld a ydych yn addas i weithio mewn rôl benodol.

Cawn ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn y ffordd hon i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

## GWNEUD PENDERFYNIADAU'N AWTOMATIG

Mae penderfyniadau awtomatig yn cael eu gwneud pan fydd system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb gymorth unigolyn. Cawn ddefnyddio'r broses gwneud penderfyniadau'n awtomatig yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Lle byddwn wedi rhoi gwybod i chi am y penderfyniad ac wedi rhoi 21 diwrnod i chi ar gyfer gwneud cais i'r penderfyniad gael ei ailystyried.
2. Lle mae'n rhaid gwneud hynny i gyflawni'r contract gyda chi a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.
3. Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi a lle mae mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.
4. Os byddwn yn gwneud penderfyniad awtomatig ar sail unrhyw wybodaeth bersonol sensitif iawn, rhaid i ni un ai

gael eich caniatâd ysgrifenedig penodol chi neu rhaid bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd. Rhaid i ni hefyd sefydlu mesurau priodol i ddiogelu eich hawliau.

Ni fydd penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol amoch yn cael eu gwneud ar sail penderfyniadau awtomatig yn unig, oni fydd gennym sail gyfreithiol dros wneud hynny ac wedi rhoi gwybod i chi.

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud amdanoch drwy ddulliau awtomatig. Ond, os bydd y sefyllfa hon yn newid, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig.

## RHANNU DATA

Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu'ch data â thrydydd partion, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn y grŵp.

Rydym yn gofyn i drydydd partion barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

Efallai y byddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Os byddwn yn gwneud hyn, gallwch ddisgwyl lefel debyg o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

## Pam y byddech yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd partion?

Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â thrydydd partion pan fo hynny'n ofynnol dan y gyfraith, pan fo hynny'n ofynnol ar gyfer gweinyddu'r berthynas weithio â chi neu pan fo gennym fudd cyfreithlon arall dros wneud hynny.

## Pa ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n prosesu fy ngwybodaeth bersonol?

Mae "trydydd partion" yn cynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti (gan gynnwys contractwyr ac asiantau dynodedig) ac endidau eraill yn ein grŵp. Mae'r gweithgareddau canlynol yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti: gwasanaethau cyflogres, gweinyddu pensiynau, gweinyddu a darparu buddion, TG.

## Pa mor ddiogel yw fy ngwybodaeth gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn ein grŵp?

Rhaid i'n holl ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn y grŵp gymryd mesurau diogelu priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisiau. Nid ydym yn gadael i'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol chi at eu dibenion hwy eu hunain. Dim ond ar gyfer dibenion penodol yr ydym yn gadael iddynt brosesu'ch data personol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

## Pryd y gallech chi rannu fy ngwybodaeth bersonol ag endidau eraill yn y grŵp?

Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol ag endidau eraill yn y grŵp (fel BBC Worldwide) fel rhan o'n gweithgareddau adrodd rheolaidd ar berfformiad y cwmni, yng nghyd-destun ymarfer ad-drefnu busnes neu ailstrwythuro grŵpiau, ar gyfer cymorth cynnal a chadw systemau a lletya data.

## Beth am drydydd partïon eraill?

Efallai y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon eraill, er enghraifft yng nghyd-destun gwerthiant posibl neu ailstrwythuro'r busnes. Efallai hefyd y bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol â rheoleiddiwr neu fel arall i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Efallai y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn cyflawni ein contract â chi. Pan fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, byddwn yn sicrhau: (1) bod penderfyniad digonolrwydd ar gael gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r gwledydd hynny; neu (2) bod dulliau diogelu digonol eraill yn eu lle. Mae hyn yn golygu y tybir bod gan y gwledydd y byddwn yn trosglwyddo'ch data iddynt lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer eich gwybodaeth bersonol.

Yn ychwanegol, i sicrhau y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu'n ddigonol, rydym wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin gan y trydydd partïon hynny mewn ffordd sy'n gyson â deddfau'r DU a'r UE ar ddiogelu data, ac sy'n parhau'r deddfau hynny. Os bydd angen rhagor o wybodaeth amnoch chi am y mesurau diogelu hyn, gallwch ofyn am yr wybodaeth drwy anfon e-bost at [Information.Security@bbc.co.uk](mailto:Information.Security@bbc.co.uk).

## DIOGELWCH DATA

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch eich gwybodaeth. Mae manylion y mesurau hyn ar gael drwy Gateway.

Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y bydd trydydd partïon yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol a phan maent wedi cytuno i drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel.

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu fynd ati mewn ffordd heb ei hawdurdodi a rhag cael ei newid neu ei datgelu. Hefyd, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion, asiantau a'r contractwyr hynny, a thrydydd partïon eraill, sydd angen gwybod mewn perthynas â'r busnes. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd. Mae manylion y mesurau hyn ar gael yn [Information.Security@bbc.co.uk](mailto:Information.Security@bbc.co.uk).

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw achos posibl o domi mesurau diogelu data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am hyn pan fo raid i ni wneud hynny o dan y gyfraith.

## CADW DATA

### Am faint y byddwch yn cadw fy ngwybodaeth?

Dim ond am gyn hired ag sy'n ofynnol i gyflawni dibenion casglu'r wybodaeth y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Cadw Corfforaethol sydd ar gael

drwy Gateway. I benderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o niwed yn sgil defnyddio neu ddatgelu'ch gwybodaeth bersonol heb awdurdod, dibenion prosesu'ch data personol ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gwneud eich gwybodaeth bersonol yn ddiennw fel na fydd modd cysylltu'r wybodaeth â chi bellach. Yn yr achos hwn gallwn ddefnyddio'r cyfryw wybodaeth heb roi rhagor o rybudd i chi. Pan na fyddwch mwyach yn gyflogwr, yn weithiwr neu'n gontractwr gyda'r cwmni, byddwn yn cadw ac yn dinistrio'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn unol â'n Polisi Cadw Corfforaethol a/neu ddeddfau/reoliadau perthnasol.

## HAWLIAU MYNEDIAD, CYWIRO, DILEU A CHYFYNGU

### Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol rydym yn ei dal amdanoch chi yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda os bydd eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

### Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol

Dan rai amgylchiadau, mae gennych dan y gyfraith hawl i'r canlynol:

- **Gwneud cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir fel arfer yn "cais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei dal amdanoch ac i wneud yn siŵr ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Gwneud cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol rydym yn ei dal amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn rydym yn ei dal amdanoch.
- **Gwneud cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud eich gwybodaeth bersonol pan nad oes gennym reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i ni ddileu neu symud eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu'ch** gwybodaeth bersonol lle rydym ni yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon (neu fuddiant trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol chi sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu prosesu ar y sail hon. Hefyd, mae gennych hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Gwneud cais i gyfyngu ar brosesu'ch** gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal dros dro y gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft os ydych am i ni ganfod a yw'n gywir neu'r rheswm am ei phrosesu.
- **Gwneud cais i drosglwyddo'ch** gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os byddwch chi eisiau adolygu, dilysu, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, neu wrthwynebu prosesu'ch data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â ni yn ysgrifenedig, drwy e-bostio [dpa.officer@bbc.co.uk](mailto:dpa.officer@bbc.co.uk).

### Does dim angen talu ffi fel arfer

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw rai o'r hawliau eraill). Ond, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n ormodol. Neu efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais yn y cyfryw amgylchiadau.

## Beth allen ni fod ei angen gennych chi

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Dyma fesur diogelu priodol arall i sicrhau nad yw eich gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

## HAWL I DYNNU CANIATÂD YN ÔL

Mewn amgylchiadau prin a chithau efallai wedi rhoi eich caniatâd i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chasglu, ei phrosesu neu ei throsglwyddo at ddiben penodol, mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar gyfer y diben penodol hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â [dpa.officer@bbc.co.uk](mailto:dpa.officer@bbc.co.uk). Unwaith y byddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fyddwn wedyn yn prosesu'ch gwybodaeth at y diben neu ddibenion y cytunoch chi iddynt yn wreiddiol, oni bai fod gennym sail gyfreithlon arall dros wneud hynny dan y gyfraith.

## SWYDDOG DIOGELU DATA

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â [dpa.officer@bbc.co.uk](mailto:dpa.officer@bbc.co.uk). Mae gennych hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data, drwy gysylltu â'r [Comisiynydd Gwybodaeth](#).

## NEWIDIADAU I'R POLISI PREIFATRWYDD HWN

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn ei ddiweddarau'n sylweddol. Efallai hefyd y byddwn o bryd i'w gilydd yn rhoi gwybod i chi mewn ffyrdd eraill am ein gwaith yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol. Lle bo angen, byddwn yn gofyn am ganiatâd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau prosesu newydd, cyn gwneud y cyfryw brosesu.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'ch rheolwr neu eich prif gyswllt yn y BBC.